# Tedi mewn Potel (o dan 2 flwydd oed)



## Amcanion dysgu:

Dechrau sgyrsiau gyda phlant am sut mae sbwriel yn beryglus i fywyd gwyllt a sut y gallwn ni helpu.

cadwch keep gymru'n wales daclus tidy

The Moondance Foundation

Tîm Taclus

## Gwybodaeth ymarferydd -

Mae sbwriel yn cael ei ddisgrifio fel gwastraff yn y lle anghywir, a gellir ei ganfod ym mhobman bron.

Mae'n achosi llawer iawn o niwed i'n bywyd gwyllt a'n hamgylchedd, ac mae'r effeithiau'n aml yn para'n hir ac yn cael eu teimlo ymhell y tu hwnt i'r man lle cafodd y sbwriel ei daflu.

Gall sbwriel yn ein strydoedd wneud ei ffordd yn y pen draw i afonydd a nentydd, wedi'i chwythu gan y gwynt neu'i gario gan y glaw. Mae llawer o eitemau sydd wedi'u taflu hefyd yn mynd i lawr y draen ac yn cyrraedd yr amgylchedd morol.

Y prif fygythiadau i fywyd gwyllt o ganlyniad i sbwriel yw anaf a gwenwyn bwyd. Mae llawer o greaduriaid yn cael eu hunain yn sownd y tu mewn i wrthrychau sbwriel, gyda rhai yn marw o newyn neu ddadhydradu. Bydd eraill yn bwyta sbwriel gan feddwl ei fod yn fwyd, gan eu gwneud yn wael iawn ac achosi rhwystrau a diffyg maeth.

Mae sbwriel yn rhywbeth mae'r rhan fwyaf o blant yn ymwybodol ohono o oedran ifanc. Yn anffodus, mae o'u cwmpas ym mhobman, ond mae'n broblem y gallant wneud rhywbeth yn ei gylch, gan eu helpu i deimlo wedi'u grymuso. Drwy ddeall y problemau mae sbwriel yn eu hachosi, gellir cymryd camau cadarnhaol, ac mae amddiffyn anifeiliaid rhag niwed sbwriel yn syml!

Gwnewch yn siŵr bod ein gwastraff yn cael ei waredu'n iawn, drwy ailddefnyddio, ailgylchu neu ei roi mewn bin!

## Byddwch angen:

Potel blastig fawr, glir.

Anifail tegan meddal - yn ddelfrydol anifail gwyllt y gall plant ei adnabod o'u hamgylchedd lleol (e.e. aderyn, llwynog, draenog, cwningen neu lygoden fawr).

## Paratoi:

Rhowch y tegan meddal y tu mewn i'r botel. Os yw'n ffitio drwy'r top, rhowch ef i mewn felly. Os nad yw, torrwch agoriad bach yn ofalus yng nghefn y botel, dim ond digon mawr i roi'r tegan y tu mewn, a'i dapio'n ddiogel ar gau.

## Sut i ddefnyddio'r gweithgaredd:


Cyn i'r plant fynd i'r tu allan, gosodwch y botel mewn man lle gellir ei gweld yn glir. Gadewch i'r plant ei darganfod yn naturiol yn ystod eu chwarae. Wrth iddynt sylwi ar y botel a dechrau gwneud sylwadau neu ofyn cwestiynau, symudwch yn nes i wrando, arsylwi a chefnogi eu trafodaeth yn ysgafn.

**Pam mae'r tedi yn y botel?**

**Pam mae'r tedi'n drist?**

**A ddylai poteli fod ar y llawr?**

Mae'r ysgogiad gweledol hwn yn helpu plant i archwilio a deall pam y gall sbwriel fod yn beryglus i fywyd gwyllt mewn ffordd ystyrlon ac addas i'w hoedran.



Os hoffech i bob plentyn gymryd rhan, gellir hefyd gyflwyno'r botel yn ystod amser grŵp neu amser cylch i arwain trafodaeth ar y cyd.

Eco-Tots Cymru

## Mae'r tedi yn sownd yn y botel!

**"O na, edrychwch! Mae'r draenog yn sownd! Beth yw hwn?"** (Pwyntiwch at y draenog) "Draenog."

**"Beth ddigwyddodd?"** "Sownd" **"Ydy, mae'r draenog yn sownd."**

**"Ydy'r draenog yn hapus neu'n drist?"** "Trist."

**"Mae'r draenog yn sownd. Mae'n drist."**

**"Allwn ni helpu?", "**Helpu." (Oedolyn i dynnu'r draenog yn ofalus allan o'r botel)

(Cyfeiriwch at y botel wag) **"Sbwriel yw hwn. Gall anifeiliaid fynd yn sownd mewn sbwriel."**

**"Ydy hyn yn dda neu'n ddrwg?"** "Drwg" **"Ydy, mae sbwriel ar y llawr yn ddrwg."**

**"A ddylem ni ei roi ar y llawr neu yn y bin?"** 'Yn y bin.'



cadwch gymru'n daclus
keep wales tidy

The Moondance Foundation

Tîm Taclus